**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mawrth 2023 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Michelle Blakeley-Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd (09:34) |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Matt Georgiou | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| George Jones | Atebol – Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Gill Murgatroyd | Pwyllgor Safonau |
| Keith Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Nigel Smith (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Datganodd y Cynghorydd Mark Young fuddiant personol yn eitem 9 ar yr agenda, gan ei fod hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 RHAGFYR 2022**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Rhoddodd y DBST Forshaw ddiweddariad byr ar y Dyfarniad Cyflog a'r hyn sy'n gysylltiedig â gweithredu diwydiannol posibl. Nodwyd bod yr Aelodau wedi cael eu briffio'n rheolaidd dros y chwe mis diwethaf ar yr eitem hon gan y Prif Swyddog Tân.

5.2 Roedd cynnig cyflog wedi'i wneud gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar 07 Chwefror 2023 o 7% wedi'i ôl-ddyddio i fis Gorffennaf y llynedd, a chynnig o 5% yn dod i rym ym mis Gorffennaf eleni. Roedd Undeb y Brigadau Tân wedi cynnal pleidlais ymhlith ei aelodau gydag argymhelliad i dderbyn y cynnig hwn, a phleidleisiodd 96% i dderbyn y cynnig gydag 84% o’r aelodau wedi pleidleisio.

5.3 Mae'r Gwasanaeth yn croesawu unrhyw setliad sy'n osgoi gweithredu diwydiannol ac yn cefnogi ei staff, ac mae'r holl baratoadau ar gyfer parhad busnes a oedd yn deillio o botensial gweithredu diwydiannol bellach wedi'u rhoi o’r neilltu.

5.4 Gofynnwyd i'r aelodau nodi nad oedd unrhyw arian ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig cyflog hwn ac felly byddai'n rhaid dod o hyd i'r gost ychwanegol o gyllideb y Gwasanaeth. Mae hynny’n golygu newid mewn darpariaeth frys i ganfod cydbwysedd priodol rhwng yr heriau sy'n ein hwynebu wrth warchod pobl Gogledd Cymru a sicrhau bod gennym gyllideb gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

5.5 Mynegodd yr Aelodau bryder bod y cynnig cyflog wedi'i gytuno heb y cynnig o gyllid i'r Gwasanaethau Tân ac Achub gan y Llywodraeth.

5.6 **PENDERFYNWYD:**
- **i) cymeradwyo bod y Cyng. Mark Young yn codi’r mater gyda Chadeirydd yr Awdurdod; a**
- **ii) cymeradwyo bod yr Aelodau'n hysbysu Arweinwyr eu Cyngor eu hunain o'r mater.**

## 6 DARPARU ARCHWILIAD MEWNOL

6.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y papur ar y Ddarpariaeth Archwiliad Mewnol, a'i bwrpas oedd amlinellu i'r Aelodau yr angen am swyddogaeth archwilio mewnol cadarn ac effeithiol. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r cynnig i gychwyn proses gaffael ar gyfer y contract archwilio mewnol o 01 Ebrill 2023.

6.2 Cadarnhaodd y Trysorydd fod Adran Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a gyflawnodd drefniadau archwilio mewnol y Gwasanaeth, yn fodlon a'i bod yn briodol i gaffael ddigwydd o bryd i'w gilydd.

6.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gofyniad i gynnal systemau rheoli mewnol digonol a rôl archwilio mewnol wrth gefnogi'r datganiad blynyddol;**

**ii) cymeradwyo'r dull a nodir yn y papur ar gyfer caffael gwasanaethau archwilio mewnol gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer Archwilio a Sicrwydd; a**

**iii) dirprwyo penodiad y cyflenwr llwyddiannus i banel sy'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Thrysorydd yr Awdurdod.**

## 7. CRYNODEB O ARCHWILIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO CYMRU

7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur bapur Crynodeb o Archwiliad Blynyddol Archwilio Cymru a oedd yn rhoi i'r aelodau Grynodeb o Archwiliad Blynyddol 2022 a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru ac a fwriadwyd er gwybodaeth yn unig.

7.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r crynodeb o'r archwiliad blynyddol.**

## 8 Y DIWEDDARAF AM Y GYLLIDEB

8.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, bapur Y Diweddaraf am y Gyllideb a oedd yn anelu at roi diweddariad ariannol i'r aelodau yn dilyn cymeradwyo cyllideb refeniw 2023/24 yng nghyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 16 Ionawr 2023.

8.2 Nodwyd bod trafodaethau manwl eisoes wedi'u cynnal ar y pwnc hwn a bod heriau wedi'u gwneud ynghylch y cynnydd chwyddiannol yn y gyllideb. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y codiad cyflog diweddar bellach wedi arwain at bwysau cyllidebol ychwanegol o £1m, yn ychwanegol at y pwysau presennol o £1.4m.

8.3 Byddai arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i bontio'r bwlch ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ond byddai hyn yn dihysbyddu'r cronfeydd wrth gefn yn ddifrifol. Yr unig opsiynau oedd ar gael i'r Gwasanaeth wrth symud ymlaen, felly, oedd edrych ar gynyddu incwm drwy'r ardoll ar Awdurdodau Lleol a gwneud arbedion cost.

8.4 Dywedwyd wrth yr Aelodau mai trefniant Cenedlaethol yn hytrach na chytundeb lleol oedd y Dyfarniad Cyflog ac felly ychydig o ddylanwad oedd gan Lywodraeth Cymru drosto.

8.5 Nodwyd bod arbedion effeithlonrwydd trwy'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys bellach yn angenrheidiol i sicrhau bod digon o arian wrth gefn wrth symud ymlaen er mwyn cynnal sefydlogrwydd ariannol.

8.6 Mynegodd un Aelod y dylai pob Cynghorydd gysylltu â'u ASau lleol i gychwyn trafodaethau ynghylch darparu cyllid ychwanegol i dalu am y dyfarniad cyflog, a chadarnhawyd nad oedd unrhyw faterion cyfrinachedd yn ymwneud â hyn.

8.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi casgliad y trafodaethau cyflog ar gyfer diffoddwyr tân a'r pwysau cost pellach cysylltiedig;**

**ii) ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr i fynd i'r afael â'r pwysau cost sy'n deillio o setliad cyflog y diffoddwyr tân;**

**iii) nodi bod y trafodaethau cyflog ar gyfer yr holl staff eraill yn parhau i fod heb eu penderfynu ar hyn o bryd; a**

**iv) nodi y bydd gan y diffyg sylfaenol o £2.4m oblygiadau anorfod ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a chynnydd yn yr ardoll ar gyfer 2024/25.**

## 9 CANOLFAN HYFFORDDIANT

9.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw bapur ar y Ganolfan Hyfforddiant a oedd yn cyflwyno diweddariad ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar gynhyrchu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddiant a datblygu tân ac achub newydd yng Ngogledd Cymru.

9.2 Holwyd a fyddai angen cau'r ganolfan hyfforddiant bresennol yn Nolgellau yn gyfan gwbl, neu a fyddai cyfle i'w chadw ar agor er mwyn cyflwyno agweddau penodol ar hyfforddiant. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r ganolfan hyfforddiant bresennol yn aros ar agor am o leiaf bum mlynedd gan y byddai'n cymryd hynny o amser i sefydlu'r ganolfan hyfforddiant newydd, pe bai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi.

9.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyng. Rees a'r Cyng. Cunningham yn rhan o'r gweithgor ar gyfer yr eitem hon, ynghyd â chynrychiolydd o bob un o'r pedwar cyngor cyfansoddol sy'n weddill. Cymeradwywyd hyn gan yr Aelodau.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r cefndir ar gyfer adolygu cyfleusterau hyfforddiant Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru;**

**ii) nodi bod y ddarpariaeth hyfforddiant bresennol yn cyrraedd diwedd ei hoes;**

**iii) nodi bod cam nesaf y prosiect, i gadarnhau addasrwydd y tir a nodwyd, wedi dechrau;**

**iv) nodi'r amserlenni sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu achos busnes manwl i'r Aelodau ei ystyried; a**

**v) dewis Aelodau o bob cyngor cyfansoddol i ffurfio gweithgor i helpu i ddatblygu a chraffu ar gynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi newydd.**

**10 MATERION BRYS**

10.1 Nid oedd materion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 o'r gloch.